

AELODAU'R CYHOEDD YN SIARAD YNG NGHYFARFODYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cydnabod bod modd i'w breswylwyr wneud cyfraniad pwysig at ei benderfyniadau a bod yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr.

Mae'r canllaw yma'n darparu gwybodaeth am yr hyn y mae modd i aelodau'r cyhoedd ei ddisgwyl wrth fynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu.



CYNNWYS

	Tudalennau
1. Beth yw'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu?	3
2. Ble a phryd mae'r Pwyllgor yn cyfarfod?	4
3. Sut mae modd i mi sicrhau bod fy 'llais' yn cael ei glywed?	4
4. Pwy sy'n cael siarad?	5
5. Am faint o amser caf i siarad?	5
6. Am beth caf i siarad yn y cyfarfod?	6
7. Paratoi'ch sylwadau ar gyfer y Pwyllgor	6-7
8. Presenoldeb yn y cyfarfod	7
9. Pryd bydda i'n siarad?	7-8
10. Dogfennau ategol neu gymhorthion gweledol	8-9
11. Ar ôl annerch y Pwyllgor	9
12. Sut ydw i'n cofrestru i siarad?	9
13. Sut ydw i'n cofrestru i siarad yn Gymraeg?	9
14. Sut ydw i'n cofrestru i siarad os oes gyda fi anabledd neu anghenion ychwanegol?	10
15. Cyflwyno sylwadau ysgrifenedig	10
16. Ymweliadau Safle	10-11
17. Gwybodaeth Ychwanegol	11



1. Beth yw'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu?

Mae'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn cwrdd yn rheolaidd i benderfynu ar geisiadau am ganiatad cynllunio, yn ogystal â thrafod materion ynghylch diogelu coed a gwrychoedd, a chamau gorfodi ym maes cynllunio.

Nid yw pob cais cynllunio yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu. Fel arfer, bydd swyddogion yn gwneud penderfyniadau am fân geisiadau o dan bwerau dirprwyedig. Mae Llywodraeth Cymru yn annog Cyngorau i wneud penderfyniadau am o leiaf 70% o'r holl geisiadau o dan bwerau dirprwyedig, yn enwedig os yw'r ceisiadau hynny'n cydymffurfio â chynlluniau lleol mae'r Cyngor wedi cytuno arnyn nhw eisoes.

Mae'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn trafod yr holl geisiadau cynllunio y mae angen i Aelodau Etholedig y Cyngor benderfynu arnyn nhw ag yntau'n Awdurdod Cynllunio Lleol. (Gweler tudalennau 66-68 o Gyfansoddiad y Cyngor, [Rhan 3 – Cyfrifoldeb am Swyddogaethau](#), sy'n manylu ar yr achosion lle mae angen i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu benderfynu ar geisiadau.)

Mae modd i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu bleidleisio yn unol ag argymhelliad y Swyddog neu yn ei erbyn. Lle bo Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu o blaid gwneud penderfyniad yn erbyn yr hyn mae'r Swyddog yn ei argymhell, dylen nhw ohirio'r drafodaeth am y mater hwnnw tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Mae hyn er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw dderbyn adroddiad pellach gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, ac o bosibl Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, ar gryfderau a gwendidau unrhyw resymau cynllunio arfaethedig dros wneud penderfyniad o'r fath.

Fel arall, mae modd i'r Pwyllgor ohirio penderfynu ar gais tan gyfarfod dilynol o'r Pwyllgor am reswm penodol, neu ohirio penderfyniad er mwyn cynnal ymweliad safle.

Tra bod cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, dydyn nhw **ddim** yn gyfarfodydd cyhoeddus.



2. Ble a phryd mae'r Pwyllgor yn cyfarfod?

Mae'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn cyfarfod ddwywaith y mis. Cynhelir y cyfarfodydd hybrid ar ddydd Iau am 3pm. Mae modd i gyfranogwyr ddod i Siambr y Cyngor ar gyfer y cyfarfod, neu ymuno ar-lein gan ddefnyddio rhaglen Zoom. Mae cyfarfodydd yn cael eu darlledu'n fyw ac mae recordiad ar gael i'w weld yn dilyn y cyfarfod. Mae rhagor o fanylion i'w gweld [yma](#). Mae modd cynnal cyfarfodydd trwy Zoom yn unig o bryd i'w gilydd, yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd.

Mae rhestr o holl gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu ar gyfer blwyddyn bresennol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor. Cliciwch [yma](#).

3. Sut mae modd i mi sicrhau bod fy 'llais' yn cael ei glywed?

Y ffordd hawsaf a mwyaf priodol i'r cyhoedd neu unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn cais cynllunio nodi eu sylwadau yw drwy ysgrifennu e-bost neu lythyr. Rhaid cyflwyno sylwadau o fewn cyfnod amser penodol, fel arfer 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr ymgynghori gwreiddiol. Dyma gyfle i ni ofalu ein bod ni'n ystyried yn ofalus unrhyw sylwadau rydyn ni wedi'u derbyn cyn dod i benderfyniad. Mae modd dod o hyd i ganllawiau pellach [yma](#).

Os bydd angen i Bwyllgor Cynllunio a Datblygu'r Cyngor benderfynu ar y cais, mae modd i chi annerch y Pwyllgor ar y cais perthnasol pan fydd y mater yn cael ei drafod. Mae modd i chi annerch y Pwyllgor wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, neu ar-lein gan ddefnyddio rhaglen Zoom. Ar ôl i chi ofyn i siarad mewn cyfarfod, byddwch chi'n cael cyfarwyddiadau clir ar sut i ymuno â'r cyfarfod, a hynny wyneb yn wyneb neu ar-lein (Gweler adran 13 - 'Sut ydw i'n cofrestru i siarad?').

Fel arall, os na allwch chi ddod i gyfarfod perthnasol y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu i annerch y Pwyllgor ynglŷn â'r cais, mae modd i chi gyflwyno sylwadau ysgrifenedig (Gweler adran 15 - 'Cyflwyno sylwadau ysgrifenedig').



4. Pwy sy'n cael siarad?

Mae gan ymgeiswyr, ymgynghorwyr neu asiantau proffesiynol, ac aelodau'r cyhoedd hawl i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, ar yr amod eu bod wedi cofrestru eu bwriad i annerch y Pwyllgor erbyn y dyddiad cau penodedig.

Er mwyn cadw hyd y cyfarfod dan reolaeth, pe bai nifer o siaradwyr yn dadlau'r un achos – o blaid neu yn erbyn y cais am ganiatâd cynllunio – dylech chi geisio dod at eich gilydd a dewis rhywun i siarad ar eich rhan. Bydd hyn yn osgoi ailadrodd yn ystod y cyfarfod.

Os bydd rhywun o dan 16 oed yn dymuno siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i'r unigolyn fod yng nghwmni oedolyn.

Fydd y Pwyllgor ddim yn oedi wrth ystyried eitem oherwydd nad yw siaradwr cyhoeddus yn bresennol, ar yr amod bod y siaradwr wedi derbyn digon o rybudd am ddyddiad y cyfarfod a'i hawl i siarad yn y cyfarfod hwnnw.

5. Am faint o amser caf i siarad?

Caiff siaradwyr cyhoeddus hyd at 5 munud i annerch y Pwyllgor ynglŷn â chais cynllunio. Nodwch fod 5 munud arall yn cael ei neilltuo er mwyn i'r ymgeisydd neu ymgynghorydd proffesiynol ar ran yr ymgeisydd ymateb i fanylion newydd a gaiff eu cyflwyno gan y gwrthwynebydd/gwrthwynebwr neu ymgynghorwyr proffesiynol ar eu rhan. (Gweler adran 9 - 'Pryd bydda i'n siarad yn ystod y cyfarfod?' am fanylion y drefn siaradwyr cyhoeddus).

Mae gan y Cadeirydd ddisgresiwn i ofyn i'r siaradwr orffen siarad cyn i'r amser yma ddod i ben, os yw'r Cadeirydd o'r farn bod y siaradwr yn gwneud unrhyw sylwadau sy'n ymddangos yn ddifenyddol, yn sarhaus neu'n amherthnasol i'r eitem sy'n cael ei thrafod.



6. Am beth caf i siarad yn y cyfarfod?

Rhaid i aelod o'r cyhoedd siarad ar yr eitem y mae wedi'i gofrestru i siarad amdani - ni chaiff fynd i'r afael ag eitemau eraill ar yr agenda neu fusnes amherthnasol.

Gofynnwn i chi sicrhau:

- Eich bod chi'n cyfeirio at ystyriaethau cynllunio perthnasol yn unig
- Bod eich sylwadau yn glir ac yn gryno ac yn cysylltu'n uniongyrchol â'r adroddiad rydych chi wedi gofyn i gael siarad amdano;
- Eich bod chi'n osgoi ailadrodd pwyntiau sydd eisoes wedi'u gwneud gan siaradwyr cyhoeddus eraill;
- Eich bod chi'n cyfyngu'ch barn i'r adroddiad a'ch bod chi'n tynnu sylw at sut mae modd i'r adroddiad effeithio ar ddarparu gwasanaethau i grwpiau penodol o ddinasyddion yn Rhondda Cynon Taf; ac
- Nad yw eich sylwadau yn ddifenwol, yn gwahaniaethu neu'n cynnwys iaith sarhaus.

Efallai bydd gofyn i siaradwyr egluro unrhyw un o'u sylwadau, yn ogystal â derbyn cwestiynau gan yr Aelodau. Mae'n bwysig nad yw siaradwyr cyhoeddus yn dadlau ag Aelodau'r Pwyllgor.

7. Paratoi'ch sylwadau ar gyfer y Pwyllgor

Mae hawl y cyhoedd i siarad yn berthnasol i bob eitem ar yr agenda ac eithrio'r canlynol:

- Datganiadau Buddiant; Deddf Hawliau Dynol 1998 a Phenderfyniadau Rheoli Datblygu; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; Cofnodion ac Adroddiadau Er Gwybodaeth.
- Eitem ar yr agenda sydd wedi'i thynnu'n ôl.
- Unrhyw eitem ar yr agenda nad yw'n cynnwys adroddiad ysgrifenedig.
- Eitem ar yr agenda y mae'r Cadeirydd wedi arfer ei ddisgresiwn i dynnu'n ôl hawl y cyhoedd i siarad amdani;



- Pan fo eitemau cyfrinachol/eithriedig yn cael eu trafod gan y Pwyllgor, bydd y Cadeirydd yn gofyn i bob aelod o'r wasg a'r cyhoedd adael yr ystafell gyfarfod.

Dydy'r hawl i siarad ddim yn cynnwys yr hawl i ofyn unrhyw gwestiynau i unrhyw Aelod Etholedig, Swyddogion y Cyngor, unigolion sydd wedi'u gwahodd nac unrhyw siaradwr arall.

8. Presenoldeb yn y Cyfarfod

Dylai aelodau'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad gyrraedd y Siambr/ymuno â'r cyfarfod ar-lein o leiaf 15 munud cyn dechrau'r cyfarfod, a dylen nhw roi gwybod i Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd eu bod nhw wedi cyrraedd.

Os byddwch chi'n dod i Siambr y Cyngor, bydd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn cwrdd â chi ac yn rhoi sedd briodol i chi. Bydd y Cadeirydd yn gofyn i chi annerch y Pwyllgor ar yr adeg briodol.

Os byddwch chi'n ymuno â'r cyfarfod ar-lein, bydd swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â chi drwy e-bost er mwyn rhoi'r manylion mewngofnodi angenrheidiol i chi. Ni ddylech chi rannu rhif adnabod y cyfarfod na'r cyfrinair gydag unrhyw un arall. Dim ond un person fydd yn gallu ymuno â'r cyfarfod gan ddefnyddio'r manylion yma. Os ydych chi'n rhannu'r manylion yma, efallai fydd ddim modd i chi ymuno â'r cyfarfod.

Nodwch: os ydych chi'n dewis y naill opsiwn neu'r llall, rydych chi'n cydsynio i gael eich cynnwys yn y recordiad o'r cyfarfod a fydd yn cael ei rannu ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad y cyfarfod yn cynnwys sain a delweddau ohonoch chi a phawb arall yn y cyfarfod. (Gweler isod am ddolen i [Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol y Cyngor](#).)

9. Pryd bydda i'n siarad yn ystod y cyfarfod?

Caiff trefn yr agenda ei haddasu er mwyn hwyluso busnes y Pwyllgor yn y ffordd orau. Fel arfer, bydd ceisiadau gyda siaradwyr cyhoeddus yn cael eu blaenoriaethu ac agenda'r cyfarfod yn cael ei haildrefnu yn unol â hynny. Bydd siaradwyr cyhoeddus yn cael eu cyflwyno gan y Cadeirydd ar yr adeg briodol a'u hannog i annerch y Pwyllgor.



Dyma'r drefn arferol ar gyfer galw siaradwyr cyhoeddus:

1. Yr ymgeisydd/ymgeiswyr
2. Ymgynghorwyr proffesiynol ar ran yr ymgeisydd/ymgeiswyr
3. Y sawl sy'n cefnogi'r cais ar ran yr ymgeisydd/ymgeiswyr
4. Ymgynghorwyr proffesiynol y sawl sy'n gwrthwynebu'r cais
5. Y sawl sy'n gwrthwynebu'r cais
6. Ymateb gan yr ymgeisydd/ymgeiswyr neu'r ymgynghorwyr proffesiynol perthnasol i ddeunydd neu fanylion newydd a gyflwynwyd gan y gwrthwynebydd/gwrthwynebwyr neu'r ymgynghorydd proffesiynol ar eu rhan.
7. Yr Aelodau Lleol (Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol)
8. Cyflwyno adroddiad Swyddog y Cyngor

Wedyn, bydd yr Aelodau'n ystyried ac yn trafod y cais ac yn penderfynu ar yr hyn i'w wneud yn ei gylch.

Os yw'r Pwyllgor yn penderfynu gohirio penderfynu ar gais er mwyn cynnal ymweliad safle, ni fydd trafodaeth bellach ynglŷn â'r cais yn y cyfarfod, a fydd siaradwyr cyhoeddus **ddim** cael eu gwahodd i wneud eu hanerchiad.

Os bydd y Pwyllgor yn pleidleisio yn erbyn argymhelliad y Swyddog Cynllunio, ni fydd penderfyniad ynglŷn â'r cais yn cael ei wneud yn y cyfarfod hwnnw. Bydd y cais yn cael ei drafod mewn cyfarfod dilynol o'r Pwyllgor gydag adroddiad pellach ar oblygiadau penderfynu yn erbyn argymhelliad y Swyddog Cynllunio. Ni chaniateir i siaradwyr cyhoeddus siarad pan fydd y cais yn cael ei drafod yn y cyfarfod dilynol y Pwyllgor.

10. Dogfennau ategol neu gymhorthion gweledol

Does dim modd i siaradwyr cyhoeddus ddefnyddio cymhorthion gweledol a thystiolaeth ategol arall, oni bai fod hynny o dan amgylchiadau eithriadol (Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol fydd yn penderfynu ar hyn yn dilyn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu).



Bydd angen gwneud ceisiadau i gyflwyno cymhorthion gwledol neu dystiolaeth ategol arall i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu i'r Adran Gynllunio cyn cyfarfod y pwyllgor er mwyn asesu eu priodoldeb.

11. Ar ôl annerch y Pwyllgor

Ar ôl i chi orffen siarad, cofiwch fod modd i Gadeirydd y Pwyllgor a/neu Aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau i chi.

Wedyn, bydd Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried y sylwadau sydd wedi'u gwneud ac yn penderfynu a ddylen nhw wneud unrhyw argymhellion i'r Cabinet neu'r Uwch Swyddog gyda chyfrifoldeb dirprwyedig yn seiliedig ar y sylwadau/materion hynny sydd wedi codi, os yw hynny'n briodol.

Caniateir i siaradwyr cyhoeddus wylïo'r drafodaeth am y cais perthnasol ac mae croeso iddyn nhw adael y cyfarfod unwaith i'r Pwyllgor symud ymlaen i'r eitem nesaf ar yr agenda.

12. Sut ydw i'n cofrestru i siarad?

Cyhoeddir agendâu cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu ar wefan y Cyngor, 5 diwrnod clir cyn dyddiad y cyfarfod.

Mae modd i Aelodau Etholedig sydd ddim yn rhan o'r pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd ofyn i annerch y pwyllgor yn ystod cyfarfod sy'n ymwneud â'r mater dan sylw. Pe hoffech chi gofrestru i siarad â'r Pwyllgor, llenwch y ffurflen ar-lein (<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/CouncillorsCommitteesandMeetings/Committees/PublicSpeakingatPlanningDevelopmentCommitteeMeetings.aspx>). Dylech chi wneud hyn erbyn 5pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn cyfarfod perthnasol y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu.

13. Sut ydw i'n cofrestru i siarad yn Gymraeg?

Rydyn ni'n croesawu unrhyw ohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn unol â'r canllawiau (sydd i'w gweld yn adran 12 uchod), os ydych chi am annerch Aelodau'r Pwyllgor yn Gymraeg, mae'r un broses yn berthnasol, a dylech chi nodi a ydych chi



am siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael yn y cyfarfod os byddwch chi'n dymuno annerch y Pwyllgor trwy gyfrwng y Gymraeg.

14. Sut ydw i'n cofrestru i siarad os oes gyda fi anabledd neu anghenion ychwanegol?

Os oes gyda chi anabledd neu unrhyw anghenion ychwanegol a bod angen cymorth arnoch chi er mwyn cymryd rhan yn ein cyfarfodydd, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod erbyn 5pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu perthnasol. Bydd aelod o'n carfan yn hapus i gysylltu â chi i drafod eich anghenion penodol a threfnu'ch cais i siarad.

15. Cyflwyno sylwadau ysgrifenedig

Os fydd dim modd i chi fod yn bresennol i annerch y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y cyfarfod perthnasol, gallwch gyflwyno'ch sylwadau yn ysgrifenedig. Dylai sylwadau ysgrifenedig ddod i law dim hwyrach na 10am ar ddiwrnod y cyfarfod perthnasol, fel bod modd eu rhannu ag Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu cyn y cyfarfod.

Anfonwch sylwadau ysgrifenedig i:

gwasanaethaucynllunio@rctcbc.gov.uk

neu drwy'r post:

Gwasanaethau Cynllunio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, 2 Llys Cadwyn, Stryd Taf, Pontypridd CF37 4TH.

16. Ymweliadau Safle

Pe bai'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn penderfynu gohirio gwneud penderfyniad ar gais er mwyn cynnal ymweliad safle, ni fydd trafodaeth bellach ar y cais yn y cyfarfod, ac ni wahoddir siaradwyr cyhoeddus i annerch y Pwyllgor.



Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn cael eu gwahodd wedyn i ymweliad ffurfiol â safle'r cais, a chyhoeddir y manylion ar wefan y Cyngor [yma](#). Mae'n bwysig nodi na chaiff unrhyw benderfyniadau eu gwneud mewn cyfarfodydd ymweliad safle. Er bod modd i chi fod yn bresennol yn ystod yr ymweliad safle, fydd ddim caniatâd i chi gynnig eich sylwadau i Aelodau'r Pwyllgor ar yr adeg honno.

Bydd y cais yn cael ei adrodd yn ôl i gyfarfod dilynol o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, ynghyd ag adroddiad sy'n trafod yr ymweliad safle. Os ydych chi dal eisiau annerch y Pwyllgor, bydd rhaid i chi gofrestru i siarad eto yn unol â'r gweithdrefnau uchod, hyd yn oed os oeddech chi wedi cofrestru i siarad yn y cyfarfod diwethaf.

17. Gwybodaeth Ychwanegol

Does dim hawl gan aelodau'r cyhoedd ffilmio na recordio cyfarfodydd ac rydyn ni'n gofyn iddyn nhw beidio â rhannu manylion ymuno'r cyfarfodydd gydag unrhyw un arall.

Dylai siaradwyr roi gwybod i'r Gwasanaethau Democrataidd ymlaen llaw os oes gyda nhw unrhyw anghenion neu ofynion arbennig.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch siarad cyhoeddus mewn cyfarfod, mae croeso i chi gysylltu â BusnesRheoleiddiolaGweithredol@rctcbc.gov.uk.

Nodwch, os byddwch chi'n annerch y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, rydych chi'n cydsynio i chi gael eich cynnwys yn y llif byw a recordiad o'r cyfarfod, i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Bydd y recordiad yn cynnwys lluniau a recordiad sain ohonoch chi a phawb arall sy'n rhan o'r cyfarfod.

